

**DATGANIAD O DDEALLTWRIAETH TRWYDDED HMO DINAS A SIR
ABERTAWE**

EIDDO

RHAGOFALON TÂN

Mae'r defnydd o'r cyfleusterau rhagofalon tân a'u diben fel a nodir isod wedi eu hesbonio i mi ac rwy'n eu deall:

1. Y larwm tân
2. Ffordd o ddianc
3. Diogelu'r llwybr dianc a'i gadw'n glir o rwystrau
4. Pwysigrwydd drysau tân
5. Cyfarpar ymladd tân

RHEOLI GWASTRAFF

Mae'r trefniadau ar gyfer storio, casglu ac ailgylchu gwastraff fel a nodir isod wedi eu hesbonio i mi ac rwy'n eu deall:

1. Rhoddir gwastraff na ellir ei ailgylchu i'w gasglu mewn sachau gwastraff du.
2. Bodlonir gofynion ailgylchu gwastraff a nodir gan y cyngor.
3. Rhaid rhoi sachau sbwriel ac ailgylchu a biniau gwastraff bwyd wrth ymyl y ffordd o flaen yr eiddo ar ôl 7.00pm ar y noson cyn eu casglu.
4. Ni ddylai unrhyw sachau sbwriel neu unrhyw wastraff arall gronni yn yr ardd neu'r iard cyn eu casglu. Rhaid eu storio'n gywir yn y biniau neu ardal storio arall a ddarperir gan y landlord.
5. Gellir cael gwared ar wastraff cartref arferol yn unig mewn sachau gwastraff neu ailgylchu. Rhaid lapio eitemau miniog bob amser. Ni ddylid gwaredu olew, saim, asbestos, gwastraff clinigol, gwastraff adeiladu na gwastraff gardd yn y modd hwn. Y rhif ffôn cyswllt ar gyfer unrhyw ymholiadau yw (01792) 635600.

YMDYGIAD GWRTHGYMDEITHASOL

Mae'r gofynion sy'n gysylltiedig ag ymddygiad gwrthgymdeithasol fel a nodir isod wedi eu hesbonio i mi ac rwy'n eu deall:

1. Ystyr ymddygiad gwrthgymdeithasol
2. Effaith ymddygiad gwrthgymdeithasol ar bobl eraill
3. Y safon ymddygiad a ddisgwylir
4. Canlyniadau ymddygiad gwrthgymdeithasol
5. Y canlyniadau posib o ran fy nghytundeb tenantiaeth.

**RHEOLIADAU RHEOLI TAI AMLFEDDIANNAETH (CYMRU) 2006 A
RHEOLIADAU TRWYDDEDU A RHEOLI TAI AMLFEDDIANNAETH
(DARPARIAETHAU YCHWANEGOL) (CYMRU) 2007**

Mae dyletswyddau preswylwyr o dan Reoliad 10 y rheoliadau hyn (rheoliad 11 o Reoliadau 2007 ar gyfer Tai Amifeddiannaeth Adran 257) fel a nodir isod wedi eu

hesbonio i mi ac rwy'n eu deall:

1. Peidio ag ymddwyn mewn modd a fydd yn atal neu'n achosi rhwystredigaeth i'r rheolwr wrth iddo gyflawni ei ddyletswyddau
- 2.
3. Caniatáu i'r rheolwr ddod i mewn i unrhyw lety byw neu le arall rwyf yn ei ddefnyddio, ar bob amser rhesymol, at unrhyw ddiben sy'n gysylltiedig â chyflawni unrhyw ddyletswydd a roddir iddo o dan y rheoliadau hyn
4. Rhoi unrhyw wybodaeth ar gais y gall y rheolwr ofyn yn rhesymol amdani at ddiben cyflawni unrhyw ddyletswydd o'r fath
5. Cymryd gofal rhesymol i osgoi achosi difrod i unrhyw beth y mae gan y rheolwr ddyletswydd i'w ddarparu, ei gynnal neu ei atgyweirio o dan y rheoliadau hyn
6. Storio a chael gwared ar sbwriel yn unol â'r trefniadau a wneir gan y rheolwr
7. Cydymffurfio â chyfarwyddiadau rhesymol y rheolwr o ran unrhyw ffordd o ddianc rhag tân, atal tân a defnyddio offer tân.

Rwyf wedi darllen y Datganiad o Ddealltwriaeth o ran rhagofalon tân, rheoli gwastraff, ymddygiad gwrthgymdeithasol a chrynodeb y rheoliadau rheoli, ac rwy'n eu deall. Rwy'n deall os na fyddaf yn cydymffurfio â'r rhain, gall fod yn drosedd a gellir f'erlyn. Deallaf y gall fod yn rhaid i ddeiliad trwydded yr eiddo hwn roi copi o'r ddogfen hon, gan gynnwys fy manylion isod, i Ddinas a Sir Abertawe'n unol ag amodau trwydded HMO yr eiddo. Bydd fy manylion yn cael eu defnyddio dim ond mewn cysylltiad â gorfodi deddfwriaeth ac amodau sy'n ymwneud â gosod yr eiddo hwn fel tŷ amlfeddiannaeth y gellir ei drwyddedu.

PRESWYLIWR			DEILIAD Y DRWYDDED
Enw llawn	Llofnod	Dyddiad	Llofnod a dyddiad